OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2628 (Cy. 217 )

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 9) (Diwygio) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *19 Gorffennaf 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *20 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â Pholisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 9) (Diwygio) 2001; maent yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 20 Gorffennaf 2001.

### Diwygiad i Reoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 9) 2001

**2.** Mae rheoliad 1(2) o Reoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 9) 2001(**3**) yn cael ei ddiwygio drwy roi'r geiriau “30th September 2001” yn lle'r geiriau “20th July 2001”.

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2001/2529 (Cy.207).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd Cynulliad Cenedaethol Cymru

19 Gorffennaf 2001

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi Penderfyniad y Comisiwn 2001/547/EC ar waith gan ddiwygio Penderfyniad 2001/356/EC ynghylch mesurau diogelu penodol mewn perthynas â chlwy'r traed a'r genau yn y Deyrnas Unedig, a hynny am y chweched tro (OJ Rhif L 195, 19.7.2001, t.61). Mae'r Rheoliadau'n gymwys i Gymru yn unig. Maent yn estyn y dyddiad y daw Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 9) 2001 i ben o 20 Gorffennaf tan 30 Medi.